

Rhif: WG39139



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad ynghylch cynigion i sicrhau y gall pob dysgwr fanteisio ar y cwricwlwm llawn

Dyddiad cyhoeddi: 3 Hydref 2019

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 28 Tachwedd 2019

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

Trosolwg Rydym am gael eich sylwadau ar effaith cynigion na ddylai'r cwricwlwm newydd i Gymru, a gaiff ei gyflwyno yn 2022, gynnwys hawl i dynnu yn ôl o Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a newid enw o Addysg Grefyddol.

Sut i ymateb Mae hwn yn ymgynghoriad ysgrifenedig, electronig. Mae cwestiynau ar ddiwedd y ddogfen ymgynghori hon a gallwch gwblhau'r ffurflen ar-lein, lawrlwytho a llenwi copi caled o'r ffurflen a'i phostio atom yn y cyfeiriad a nodir isod neu ei hanfon drwy e-bost.

Rhagor o wybodaeth Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol
<https://llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl-cwricwlwm-gweddnewidiol>

a dogfennau cysylltiedig Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau. Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt I gael rhagor o wybodaeth, defnyddiwch y manylion canlynol:

Cangen y Celfyddydau, y Dyniaethau a Llesiant
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3QD

e-bost: AHWB@llyw.cymru

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gcontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i'ch data gael eu dileu (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog

Beth yw'r prif faterion?

Y Cwricwlwm Presennol
Addysg Grefyddol
Addysg Rhyw

Y Cwricwlwm Newydd
Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm newydd
Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd

Beth rydym yn ei gynnig?

Yr hawl i dynnu yn ôl o Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas
a Rhywioldeb
Newid enw o Addysg Grefyddol i Grefyddau a Bydolygon

Rhagair gan y Gweinidog

Ein gweledigaeth ar gyfer Cymru yw sefydlu system addysg gwbl gynhwysol lle mae gan bob dysgwr gyfle teg i gael addysg sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i gymryd rhan mewn dysgu, cael budd ohono a'i fwynhau.

Er mwyn helpu i gyflawni hyn, rydym yng nghanol agenda ddiwygio weddnewidiol, gan gynnwys datblygu'r Cwricwlwm i Gymru, yn seiliedig ar gynnydd dysgwyr mewn perthynas â phedwar diben ac, fel rhan o hyn, ddarparu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau er mwyn galluogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion iach, egwyddorol a gwybodus.

Rydym yn cynnig bod yn rhaid i bob plentyn mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru gael yr hawl i fanteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys, gan gynnwys Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Mae Addysg Grefyddol ac addysg rhyw yn ofynion statudol o fewn y cwricwlwm presennol. Rydym yn cynnig y bydd Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn statudol o fewn y cwricwlwm newydd pan gaiff ei gyflwyno o 2022.

Drwy Addysg Grefyddol mae dysgwyr yn archwilio'r amrywiaeth o gredoau ysbrydol, athronyddol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn eu cymuned, ledled Cymru ac ym mhedwar ban byd. Rwy'n cynnig newid enw Addysg Grefyddol i "Crefyddau a Bydolygon", sy'n adlewyrchu ymarfer addysgu yn y cwricwlwm newydd yn briodol, ac yn galluogi dysgwyr i archwilio amrywiaeth o gredoau crefyddol ac athronyddol, yn ogystal â chredoau eraill a bydolygon eraill, gan gynnwys bydolygon anghrefyddol.

Ein cyfrifoldeb fel llywodraeth yw sicrhau, drwy addysg y wladwriaeth, y gall pob plentyn a pherson ifanc ddysgu mewn ffordd sy'n ei helpu i feithrin goddefgarwch, empathi a dealltwriaeth o wahanol bobl, diwylliannau a chymunedau ac i ddeall eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill. Dylai plant allu cael gafael ar wybodaeth sy'n eu cadw'n ddiogel rhag niwed ac yn eu galluogi i ddeall y byd o'n cwmpas – byd sy'n wahanol iawn i'r un y cawsom ni a'u rhieni ein magu ynddo.

Rhaid i'r holl ddysgu ac addysgu fod yn ddatblygiadol briodol. Rhaid i'r hyn y bydd plant yn dysgu amdano gael ei egluro i'w rhieni, a dylai'r rhieni allu trafod y rhan hon o'r cwricwlwm ag ysgolion.

Bydd y dysgu a'r addysgu ym mhob ysgol yn gallu defnyddio fframwaith y byddwn yn ei ddarparu yn y canllawiau a dylent adlewyrchu'r gymuned y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu.

Rwy'n awyddus i sicrhau ei bod yn ofynnol i bob plentyn a pherson ifanc mewn ysgolion a gynhelir astudio Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd, yn hytrach na pharhau â'r anomaledd y gall rhieni benderfynu atal eu plant rhag mynychu'r gwersi craidd penodol hyn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar oblygiadau ymarferol newid o'r fath.

Mae'n gyfle i rieni, athrawon, pobl ifanc a rhanddeiliaid helpu i lywio'r maes pwysig hwn.

Rwy'n gwbl sicr bod angen i ni weithio gyda rhieni a gofalwyr, gwranddo ar eu barn ac ystyried sut y gallwn daro cydbwysedd rhwng hawliau rhieni i feithrin eu plant, gofalu amdanynt a'u harwain wrth iddynt dyfu'n oedolion, a darparu addysg eang a chytbwys sy'n gwasanaethu er budd y cyhoedd.

Beth yw'r prif faterion?

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar oblygiadau ymarferol y cynnig i sicrhau y gall pob dysgwr fanteisio ar y cwricwlwm newydd drwy beidio â chynnwys hawl rhieni i dynnu eu plant yn ôl o Addysg Grefyddol ac addysg rhyw¹, fel elfen o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Y cwricwlwm presennol

Addysg Grefyddol

2. Ar hyn o bryd, mae Addysg Grefyddol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ac mae dyletswydd statudol ar ysgolion i ddarparu Addysg Grefyddol i bob dysgwr mewn ysgolion a gynhelir, gan gynnwys dysgwyr chweched dosbarth a'r rhai mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion (11 i 18 oed), ac eithrio plant mewn dosbarthiadau meithrin.
3. Bydd natur Addysg Grefyddol yn amrywio yn ôl p'un a yw'r ysgol yn ysgol ffydd ai peidio. Mae'r llysoedd wedi penderfynu bod yn rhaid i Addysg Grefyddol gael ei darparu mewn modd gwrthrychol, beirniadol ac amlblwyfol; yn benodol, ni chaniateir i'r wladwriaeth fynd ati i geisio gwthio syniadau ("y Gofyniad Amlblwyfaeth"). Serch hynny, gall ysgolion ffydd ddarparu Addysg Grefyddol mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'u sail ffydd ond rhaid iddynt ddarparu gwybodaeth niwtral am grefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol hefyd.
4. I grynhoi, mae effaith y ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas ag Addysg Grefyddol mewn ysgolion fel a ganlyn:
 - rhaid i'r cwricwlwm yn gyffredinol fod yn gytbwys ac yn eang ei sail a rhaid iddo (a) hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion yn yr ysgol a chymdeithas, a (b) paratoi'r disgyblion ar gyfer y cyfleoedd, y cyfrifoldebau a'r profiadau y byddant yn eu hwynebu'n ddiweddarach mewn bywyd;
 - rhaid i'r cwricwlwm ddarparu Addysg Grefyddol i bob disgybl yn yr ysgol;
 - bydd ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol heb nodweddion crefyddol yn dilyn y Maes Llafur Cytunedig².
 - rhaid i ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â nodweddion crefyddol ddarparu Addysg Grefyddol yn unol â'r Maes Llafur

¹ Gweler adran 71(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 am hawl rhieni i dynnu eu plant yn ôl o Addysg Grefyddol, ac adran 405 o Ddeddf Addysg 1996 am addysg rhyw

² Gweler paragraff 2 o Atodlen 19 i *Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998*. Y Maes Llafur Cytunedig yw'r maes llafur ar gyfer Addysg Grefyddol a fabwysiadir gan yr awdurdod lleol yn unol â chynghor ei Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig. Mae'n nodi cynnwys Addysg Grefyddol i'r ysgolion hynny heb sail ffydd ac i'r rhai sydd â sail ffydd ond nad ydynt yn dilyn addysg enwadol ar wahân (ysgolion gwirfoddol a reolir).

Cytunedig oni bai bod riant yn gofyn bod ei blentyn yn cael Addysg Grefyddol yn unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu, os nad oes gweithred ymddiriedolaeth, yn unol â daliadau'r grefydd.

- rhaid i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr sydd â nodweddion crefyddol ddarparu Addysg Grefyddol yn unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu, os nad oes gweithred ymddiriedolaeth, yn unol â daliadau'r grefydd. Fodd bynnag, bydd yn rhaid ei darparu'n unol â'r Maes Llafur Cytunedig os bydd y rhieni'n gofyn am hynny (paragraffau 3 a 4 o Atodlen 19 i Ddeddf 1998).
- rhaid i Addysg Grefyddol mewn ysgolion nad ydynt yn ysgolion ffydd gydymffurfio â gofyniad y traddodiad Cristnogol³;
- ni chaniateir i ysgolion nad ydynt yn ysgolion ffydd ddarparu Addysg Grefyddol drwy unrhyw gatecism neu fformiwlari sy'n nodweddiadol o enwad crefyddol penodol (er y caniateir iddynt astudio catecismau neu fformiwlariâu o'r fath);
- mae gan riant disgybl hawl absoliwt i drefnu bod y disgybl yn cael ei esgusodi o Addysg Grefyddol, ac nid oes angen rhoi unrhyw reswm dros arfer yr hawl honno;
- mewn achosion o'r fath lle bo disgybl wedi cael ei esgusodi, gellir (yn amodol ar fodloni amodau penodol) ei dynnu allan o'r ysgol i gael y math o Addysg Grefyddol y mae ei riant yn dymuno iddo ei chael;
- os mai ysgol uwchradd yw'r ysgol ac nad oes modd tynnu disgyblion allan ohoni yn gyfleus, yna (yn amodol ar fodloni amodau penodol) rhaid darparu cyfleusterau i'r disgyblion gael y math o Addysg Grefyddol y mae eu rhieni'n dymuno iddynt ei chael.

Beth yw ysgol ffydd?

5. Mae'r ysgolion y gall fod ganddynt sail ffydd fel a ganlyn:

- a) ysgolion gwirfoddol a reolir: gall fod gan y rhain nodweddion crefyddol neu beidio;
- b) ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr: gall fod gan y rhain nodweddion crefyddol neu beidio;
- c) ysgolion sefydledig ac ysgolion arbennig sefydledig: gall fod gan ysgolion sefydledig nodweddion crefyddol hefyd.

³ Mae adran 375(3) o Ddeddf Addysg 1996 yn darparu y dylai pob maes llafur cytunedig adlewyrchu'r ffaith mai traddodiadau Cristnogol yw'r traddodiadau crefyddol ym Mhrydain Fawr yn bennaf, gan ystyried dysgeidiaeth ac arferion y prif draddodiadau crefyddol eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr.

6. Yn ymarferol, bydd bron pob ysgol ffydd yng Nghymru yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir (categori (b) uchod).
7. Fel y nodwyd uchod, mewn ysgolion nad ydynt yn ysgolion ffydd, mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn darparu na chaiff unrhyw Faes Llafur Cytunedig fod yn nodweddiadol o enwad crefyddol penodol ("Darpariaeth Catecism"). Nid yw'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i ysgolion ffydd. Er bod yn rhaid i ysgolion o'r fath gydymffurfio â'r Gofyniad Amlblwyfaeth (gweler paragraff 3), yn amodol ar hynny caniateir iddynt addysgu yn unol â'u catecism eu hunain o hyd.

Gallu rhieni i atal plentyn rhag cael Addysg Grefyddol

8. Mae rhieni'n gallu atal plentyn rhag cael Addysg Grefyddol ers Deddf Addysg 1944. Nid yw'n ofynnol i rieni roi rheswm dros wneud hynny ac erys yr hawl gyda'r rhiant drwy gydol cyfnod y plentyn yn yr ysgol (gan gynnwys y chweched dosbarth).
9. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig na fydd gan rieni hawl i dynnu plant yn ôl o Addysg Grefyddol (nac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb).

Addysg rhyw

10. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i bob disgybl oedran ysgol uwchradd sy'n mynychu lleoliadau a gynhelir gael addysg rhyw (fel y nodir yn adran 101(c) a (d) o *Ddeddf Addysg 2002*). Gall ysgolion cynradd ddarparu addysg rhyw ond mae hyn yn ôl disgresiwn eu cyrff llywodraethu.
11. Nid oes diffiniad llawn o'r hyn y mae addysg rhyw yn ei gwmpasu yn y cwricwlwm presennol ond mae adran 579(1) o *Ddeddf Addysg 1996* yn nodi ei bod yn cynnwys gwybodaeth am glefydau a drosglwyddir yn rhywiol. Ategir hyn gan ganllawiau statudol. Yn gyffredinol, mae wedi cael ei dehongli'n fwy eang i gwmpasu agweddau ar gydberthnasau.
12. Rhaid i ysgolion ffydd a'r rhai nad ydynt yn ysgolion ffydd ddarparu addysg rhyw mewn ffordd sy'n bodloni'r Gofyniad Amlblwyfaeth ac nad yw'n ceisio gwthio unrhyw syniadau crefyddol penodol mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig ag addysg rhyw. Fodd bynnag, caiff ysgolion ffydd ei darparu mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'u sail ffydd ond rhaid iddynt ddarparu gwybodaeth niwtral am safbwyntiau eraill ar yr un materion.
13. Hefyd, mae dyletswydd statudol ar ysgolion i ddarparu Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) i bob disgybl oedran ysgol gorfodol (5-16 oed fel arfer). Cânt eu cefnogi i gynllunio eu darpariaeth ABCh gan y fframwaith anstatudol ar gyfer ABCh, sy'n cynnwys thema iechyd a lles emosiynol. Fodd bynnag, gan nad yw'r Fframwaith ABCh yn statudol, mae ysgolion yn rhydd i benderfynu ar y cynnwys a'r dull cyflwyno ar yr amod y caiff y pwnc ei addysgu mewn ffordd niwtral.

14. Mae addysg perthnasoedd eisoes yn rhan o'r Cyfnod Sylfaen, sy'n cwmpasu plant 3-7 oed. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys maes dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol. Mae plant yn dysgu amdanynt eu hunain a'u perthynas â phlant eraill ac oedolion o fewn y teulu a'r tu allan iddo.

Gallu rhieni i atal plentyn rhag cael addysg rhyw

15. Ar hyn o bryd, gall rhieni atal eu plant rhag cael agweddau ar addysg rhyw yn yr ysgol (h.y. agweddau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol). Fel gydag Addysg Grefyddol, nid yw'n ofynnol i rieni roi rheswm dros wneud hynny ac erys yr hawl gyda'r rhiant drwy gydol cyfnod y plentyn yn yr ysgol (gan gynnwys y chweched dosbarth). Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig na fydd gan rieni hawl i dynnu plant yn ôl o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (nac Addysg Grefyddol).

Y Cwricwlwm Newydd

16. Rydym yn datblygu cwricwlwm gweddnewidol a bydd ysgolion yn gyfrifol am sicrhau bod eu holl ddysgwyr yn dilyn cwricwlwm eang a chytbwys sydd wedi'i gynllunio i gyflawni'r pedwar diben – bod plant a phobl ifanc yn datblygu:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd;
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

17. Er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd o ran cyflawni'r pedwar diben, bydd y cwricwlwm newydd yn cynnwys (ymhlith pethau eraill):

- Gofyniad i ddisgyblion 3 i 16 oed gael Addysg Grefyddol;
- Gofyniad i ddisgyblion 3 i 16 oed gael Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

18. Mae rhagor o fanylion am y cynigion i'w cael yn y Papur Gwyn. Er y bydd gofynion a chanllawiau i gefnogi ysgolion wrth iddynt ddatblygu'r cwricwlwm newydd a'i roi ar waith, bydd cwricwlwm a arweinir gan ddibenion yn cynnig llawer mwy o ryddid a gallu i ymarferwyr gynnig cyfleoedd dysgu sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer yr heriau a'r cyfleoedd y byddant yn eu hwynebu wrth dyfu'n hŷn ac yna wrth fyw a gweithio yn yr 21ain ganrif.

19. Yn y dull hwn a arweinir gan ddibenion, mae gan Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ran ganolog i'w chwarae yn y gwaith o gyflawni'r pedwar diben i'r graddau ein bod wedi cynnig y dylent fod yn ofynion statudol ar wahân.

Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm newydd

20. Mewn cynigion ar gyfer y Cwricwlwm newydd, bydd Addysg Grefyddol⁴ yn parhau i fod yn orfodol ac yn rhan statudol o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, gan gydnabod cyfrifoldeb lleol y Cynadleddau Maes Llafur Cytunedig ac awdurdodau lleol a lle'r maes llafur enwadol mewn ysgolion ffydd (e.e. ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr sydd â nodweddion crefyddol).
21. Mae fframwaith ategol newydd yn cael ei ddatblygu er mwyn rhoi mwy o fanylion am y gyberthynas rhwng Addysg Grefyddol, y Maes Llafur Cytunedig, a'r meysydd dysgu a phrofiad. Caiff y gwaith hwn ei wneud gan grŵp o ymarferwyr Addysg Grefyddol, athrawon o blith ein hymarferwyr Gwella Ansawdd, academyddion, a chynrychiolwyr o Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAGau) a'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG).
22. Rydym hefyd yn bwriadu i Addysg Grefyddol adlewyrchu ein cyberthynas hanesyddol a chyfoes yng Nghymru ag athroniaeth a safbwyntiau crefyddol, gan gynnwys credoau anghrefyddol. Felly, rydym yn cynnig y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn sicrhau bod y maes llafur cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol yn ystyried bydolygon anghrefyddol sy'n ddigon tebyg i grefyddau (er enghraifft, dyneiddiaeth).
23. Drwy feithrin parch a dealltwriaeth o wahanol fathau o grefydd a golwg ar y byd dros amser ac mewn gwahanol gymdeithasau, mae Addysg Grefyddol yn cynnig profiadau gwerthfawr i blant a phobl ifanc sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at bob un o'r pedwar diben.

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd

24. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn archwilio'r ffyrdd cydgysylltiedig y mae ystod eang ac amrywiol o ddylanwadau cymdeithasol, diwylliannol, technolegol a biolegol yn effeithio ar y gallu i ffurfio a chynnal cydberthnasau cadarnhaol. Mae'n helpu pobl ifanc i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddelio'n effeithiol â'r dylanwadau hyn sy'n newid yn gyflym a ffurfio cydberthnasau sy'n llawn parch a boddhad drwy gydol eu hoes. Gall y rhain gynnwys perthnasoedd teuluol, cyfeillgarwch, cydberthnasau proffesiynol a pherthnasoedd rhywiol. Mae newid o addysg rhyw yn y ddeddfwriaeth bresennol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y dyfodol yn adlewyrchu safonau cydnabyddedig Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer addysg rhywioldeb. Mae'r diffiniad hwn yn ceisio annog ysgolion i ddilyn dull cydgysylltiedig ar gyfer addysg mewn perthynas â chydberthnasau a'r amrywiaeth ehangach o bynciau sy'n perthyn i'r term rhywioldeb.

⁴Gweler paragraffau 45 – 47 isod am ein cynnig i newid enw'r maes pwnc hwn

25. Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd yn orfodol ym mhob lleoliad nas cynhelir a ariennir ac ysgol a gynhelir (a phob uned cyfeirio disgyblion) ar gyfer dysgwyr o 3 i 16 oed. Mae pedwar diben y cwricwlwm yn helpu dysgwyr i dyfu'n unigolion iach a hyderus sy'n gallu ffurfio cydberthnasau cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd, a meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn hanfodol er mwyn cefnogi hyn a dylai sicrhau bod dysgwyr yn cael y profiadau ac yn meithrin y wybodaeth a'r sgiliau i ffurfio a chynnal amrywiaeth o gydberthnasau cadarnhaol. Er mwyn adlewyrchu'n briodol ehangder yr hyn a gwmpesir, caiff y pwnc ei ailenwi'n ffurfiol yn unol ag argymhellion y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd⁵.

26. Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn galluogi dysgwyr i archwilio'r ffordd y gall eu profiadau, eu penderfyniadau, eu rhyngweithio cymdeithasol a diwylliannol, a'u cydberthnasau, ar lefel ryngpersonol ac mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol, y Deyrnas Unedig a byd-eang, eu helpu i ddod yn fwy empathig a chydabod yr urddas a'r parch sy'n ddyledus i eraill, ac i'r byd byw o'u cwmpas. Y nod yw meithrin a datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r dylanwadau a all effeithio arnynt, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, wrth iddynt geisio datblygu a sefydlu ystod o gydberthnasau iach sy'n llawn parch. Mae hyn yn cynnwys dysgu, ar gamau sy'n briodol o ran oedran, am y canlynol:

- cydberthnasau / cyfeillgarwch
- parchu gwerthoedd, hawliau, diwylliant a rhywioldeb
- deall rhywedd
- trais a chadw'n ddiogel
- cydberthynas a rhywioldeb, ac iechyd a lles
- y corff dynol a'i ddatblygiad
- rhywioldeb ac ymddygiad rhywiol

27. Mae datblygu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb drwy wahanol feysydd dysgu a phrofiad⁶ yn y cwricwlwm newydd yn galluogi dysgwyr i gael golwg gyfoethog ac eang ar gydberthnasau a rhywioldeb dynol o amrywiaeth o ddisgyblaethau.

28. Rydym yn cynnig y bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ffordd sy'n briodol o ran oedran ac yn ddatblygiadol briodol i ddysgwyr.

Rôl Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd

29. Byddai sicrhau bod Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn rhan o'r cwricwlwm i bob dysgwr ysgol yn helpu dysgwyr i weithio tuag at y pedwar diben, a chredwn fod dadl gref bod y meysydd pwnc hyn yn angenrheidiol er mwyn creu dinasyddion egwyddorol a gwybodus sy'n barod i fod

⁵ <https://gweddill.gov.wales/docs/dcells/publications/180104-future-of-the-sex-and-relationships-education-curriculum-in-wales-cy.pdf>

⁶ Cynigir y bydd y cwricwlwm newydd yn seiliedig ar chwe 'maes dysgu a phrofiad': y dyniaethau; mathemateg a rhifedd; gwyddoniaeth a thechnoleg; y celfyddydau mynegiannol; llythrennedd, ieithoedd a chyfathrebu, ac iechyd a lles.

yn ddinasyddion i Gymru a'r byd, a bod gan ysgolion rôl i'w chyflawni i ddarparu gwybodaeth niwtral, cynhwysfawr a chywir i ddysgwyr. Un rhan o'r sail resymegol dros gynnwys Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel elfennau gorfodol yn y cwricwlwm newydd yw pwysigrwydd eu cyfraniad at y pedwar diben; mae'n annhebygol y gallai rhai o'r nodweddion allweddol gael eu sicrhau gan ddysgwyr heb iddynt allu manteisio ar y pynciau hyn.

30. Mae cymdeithas a'r gyfraith wedi gweld newidiadau sylweddol ers i'r cwricwlwm presennol gael ei gyflwyno. Yn y byd modern a chynyddol gymhleth sydd ohoni, mae bydolygon crefyddol ac anghrefyddol yn treiddio i ran helaeth o fywydau beunyddiol pobl rywsut neu'i gilydd. Er mwyn paratoi disgybl ar gyfer y byd modern, rhaid i ysgolion ddarparu addysg amlblwyfol, niwtral a beirniadol iddynt ar y bydolygon crefyddol ac anghrefyddol hynny. Yn yr un modd, o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae llawer iawn o wybodaeth ar gael i ddisgyblion drwy'r rhyngwyd. Gellir cael gafael ar y wybodaeth honno'n rhwydd ac mewn nifer o wahanol ffyrdd. Credwn fod dyletswydd foesol ar y wladwriaeth i sicrhau bod plant mewn ysgolion yn cael gwybodaeth niwtral a chywir am y materion hyn sy'n treiddio drwy gymdeithas.

31. Hefyd, byddai peidio â chynnwys yr hawl i dynnu yn ôl yn cefnogi'r dull rhyngddisgyblaethol sy'n cael ei fabwysiadu yn y cwricwlwm newydd. Mae tystiolaeth anecdotaidd eisoes yn bodoli bod ysgolion a rhieni'n ei chael hi'n anodd nodi'r gwersi hynny y dylid tynnu eu plentyn allan ohonynt. Mae'n debygol y bydd natur rhyngddisgyblaethol y cwricwlwm newydd yn gwaethygu'r sefyllfa, a byddai'n anodd sicrhau bod modd arfer unrhyw hawl i dynnu yn ôl mewn ffordd ystyrlon.

Beth rydym yn ei gynnig?

Yr hawl i dynnu yn ôl o Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:

32. Rydym yn cynnig peidio â chynnwys hawl i dynnu yn ôl o Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd i Gymru. Bydd y gwersi hyn yn orfodol i bob disgybl.

33. Wrth lunio'r cynnig hwn, rydym wedi ystyried yn ofalus y safbwyntiau a wnaed yn yr ymatebion i'r Papur Gwyn ac i'r ymgynghoriad ynghylch y Canllawiau ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae'n amlwg bod gan bobl farn gref ar y materion hyn, ac rydym yn cydnabod bod pobl yn pryderu am y canlynol:

- Priodoldeb datblygiadol, ac na ddylai plant gael eu hamlygu i faterion nad ydynt yn barod amdanynt;
- Rôl / uchafiaeth y teulu o ran rhoi arweiniad ar y materion hyn;
- Y potensial am ddiffyg sensitifrwydd i safbwyntiau diwylliannol neu grefyddol gwahanol neu gydnabyddiaeth ohonynt;
- Y gallu i gynnig cyfleoedd i ddysgu mewn ffordd gynnil a sensitif;
- Y posibilrwydd o wrthdaro ac anghytuno digroeso.

34. Ar yr un pryd, cafwyd cefnogaeth gref i'n cynnig y byddai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cymryd lle addysg rhyw. Y cyhoeddiad oedd un o'r eitemau mwyaf poblogaidd a gyhoeddwyd ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.
35. Credwn hefyd, mewn byd lle y gall pawb gael gafael ar wybodaeth – a thwyllwybodaeth – yn y fan a'r lle, fod gan y cwricwlwm rôl allweddol i'w chyflawni yn y gwaith o helpu plant a phobl ifanc i ddelio â hyn i gyd yn ddiogel a gallu barnu pa wybodaeth y gallant ymddiried ynddi a chydabod y llu o safbwyntiau negyddol y byddant yn dod ar eu traws ar-lein.
36. Mae'n hanfodol ein bod yn diogelu ein holl bobl ifanc ac yn eu helpu i ddelio â'r byd cymhleth hwn. Wrth gwrs, bydd gan rieni rôl ganolog yn hyn o beth ond mae rôl allweddol i ysgolion – rôl sydd bellach yn bwysicach nag erioed.
37. Ar y sail hon, credwn fod achos cryf sy'n seiliedig ar egwyddor dros warantu y gall pob dysgwr ysgol gael Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Er mwyn i ddysgwyr allu elwa'n llawn ar gwricwlwm eang a chytbwys, rhaid iddynt allu manteisio ar bob rhan ohono. Yn y dull gweithredu newydd a arweinir gan ddibenion (a amlinellir uchod), mae gan y ddau bwnc rôl allweddol i'w chyflawni er mwyn i'n plant a'n pobl ifanc gael addysg eang a chytbwys a chyflawni'r pedwar diben.
38. Mae'r neges gan ymarferwyr wedi bod yn glir mai'r ffordd ymlaen o ran y materion hyn yw i'r Llywodraeth benderfynu ar lefel genedlaethol yn hytrach na bod ysgolion yn eu rheoli.
39. Yn y byd cynyddol gymhleth hwn sy'n newid yn gyflym, mae angen i blant a phobl ifanc ddysgu mewn ffordd gyson, ffeithiol a datblygiadol briodol am y materion a drafodir yn y pynciau hyn, ac mae ganddynt hawl i wneud hynny. Mae hyn yn bwysig fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cymdeithas fwy cynhwysol a goddefgar. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Grefyddol o safon uchel mewn ysgolion yn helpu plant a phobl ifanc i gadw'n ddiogel, parchu ei gilydd a meithrin cydberthnasau iach. Mae'r rhain yn werthoedd pwysig rydym am i bob person ifanc yng Nghymru eu datblygu er mwyn galluogi pobl ifanc i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus i Gymru a'r byd ac yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.
40. Gwnaethom ystyried yn ofalus p'un a fyddai rhoi modd i rieni dynnu eu plant yn ôl o Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn briodol yn y cwricwlwm newydd. Roeddem yn cydnabod bod y gallu i dynnu yn ôl yn bwysig i rai rhieni a bod rhai rhieni o'r farn mai lle rhieni a theuluoedd yw addysgu plant am y materion hyn yn bennaf. Gwnaethom hefyd ystyried rôl bosibl yr hawl i dynnu yn ôl o dan amgylchiadau lle bo pryderon nad yw'r dysgu a'r addysgu yn amblwyfol. Daethom i'r casgliad nad hawl i dynnu yn ôl oedd y ffordd briodol o ddelio â hyn ac y dylid mynd i'r afael â'r ymarfer yn yr ysgol dan sylw. Mae hyn eisoes wedi cael ei nodi'n faes lle y bydd angen buddsoddi mewn dysgu proffesiynol ac adnoddau i gefnogi ymarferwyr. Mae lle hefyd i hunanasesu er mwyn nodi lle y gellir gwella ymarfer ac ystyried sut y gall y Consortia

Rhanbarthol ac Estyn helpu i nodi a chefnogi camau gweithredu i wella ymarfer yn y maes hwn.

41. Daethom i'r casgliad bod yr achos seiliedig ar egwyddor dros alluogi pob plentyn a pherson ifanc i ddysgu am y materion hyn yn gryf iawn ac y byddai anawsterau ymarferol yn codi wrth dynnu dysgwyr yn ôl yn y cwricwlwm mwy integredig hwn. Daethom hefyd i'r casgliad y byddai'r ffocws ar ddysgu ac addysgu datblygiadol briodol a diwylliannol sensitif, a'r pwyslais ar ymgysylltu â chymunedau a chydabod ac ymateb i gefndir dysgwyr wrth drafod y materion hyn, yn cynnig mesurau diogelu priodol i rieni.
42. At ei gilydd, peidio â chynnwys yr hawl i dynnu yn ôl yw'r ffordd orau o gyflawni ein hamcanion polisi cyffredinol, sef:
- I bob dysgwr allu manteisio ar gwricwlwm sy'n ei alluogi i wneud cynnydd mewn perthynas â'r pedwar diben
 - I'r system addysg chwarae ei rhan yn y gwaith o greu cymdeithas fwy cynhwysol a goddefgar a gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
 - Cydnabod rôl rhieni a theuluoedd o ran arwain y plant hyn mewn perthynas â'r materion hyn
 - Cydnabod buddiannau pob grŵp, ac ymateb iddynt, a hyrwyddo cydraddoldeb
 - Peidio â chynyddu'r baich ar ysgolion na llwyth gwaith athrawon
43. Er ein bod o'r farn bod gan ysgolion rôl allweddol i'w chyflawni yn y gwaith o helpu dysgwyr i feithrin goddefgarwch, empathi a dealltwriaeth o wahanol bobl a chymunedau, ac o'u hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill, nid yw hyn yn golygu y bydd y cynnig hwn yn disodli rôl hanfodol rhieni i addysgu eu plant. Bydd yr addysg a roddir i'n plant a'n pobl ifanc drwy Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Grefyddol mewn ysgolion a gynhelir yn cael ei darparu mewn ffordd sensitif a chynhwysol er mwyn ategu'r addysg honno. Bydd y canllawiau ar y meysydd pwnc hyn yn nodi'n glir bod yn rhaid i'r wybodaeth a gwmpesir gael ei chyfleu mewn modd gwrthrychol, beirniadol ac amlblwyfol.
44. Byddwn yn ymgysylltu'n ystyrlon ac yn barhaus â chymunedau ynglŷn â'r hyn y bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ei gynnwys yn y cwricwlwm newydd a'r ffordd y caiff y cynnwys hwnnw ei addysgu. Hefyd, rydym wrthi'n sefydlu gweithgor i gwblhau'r canllawiau ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd a byddwn yn ceisio sicrhau bod cynrychiolwyr o amrywiaeth o gymunedau ledled Cymru, gan gynnwys cymunedau ffydd, yn cael eu cynnwys ac yn gallu llywio'r canllawiau terfynol.

Newid enw Addysg Grefyddol

45. Yn dilyn y newid arfaethedig i newid enw Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (a elwir yn addysg rhyw yn y ddeddfwriaeth bresennol), i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a wnaed i adlewyrchu ymarfer a dulliau gweithredu modern yn y maes pwnc hwn, credwn y dylid ystyried enw Addysg Grefyddol.

46. Mae Addysg Grefyddol yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr archwilio'r amrywiaeth o gredoau ysbrydol, athronyddol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn eu cymuned, ledled Cymru ac ym mhedwar ban byd. Rydym o'r farn y dylai enw'r pwnc adlewyrchu'r hyn a gaiff ei addysgu i ddysgwr drwy Addysg Grefyddol. Fel y cyfryw, rydym yn cynnig newid enw Addysg Grefyddol er mwyn iddo adlewyrchu ymarfer addysgu yn y cwricwlwm newydd yn briodol, a galluogi dysgwyr i archwilio pob cred grefyddol ac athronyddol, yn ogystal â chredoau eraill a bydolygon eraill, gan gynnwys bydolygon anghrefyddol. Yr enw a ffeirir gennym yw Crefyddau a Bydolygon.

Asesiad effaith

47. Ochr yn ochr â'r papur ymgynghori hwn, rydym yn cyhoeddi ein hasesiad effaith drafft. Gan nad oes unrhyw ddata ffurfiol yn cael eu cadw ar hyn o bryd ar y defnydd o'r hawl i dynnu yn ôl, rydym wedi bod yn ddibynnol ar dystiolaeth anecdotaidd gan ymarferwyr addysg. Er bod hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn, rydym am ddeall mwy am effaith ymarferol y cynnig hwn cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Hawliau Dynol

48. Rydym o'r farn bod y cynigion i beidio â chynnwys yr hawl i dynnu yn ôl yn y cwricwlwm newydd ar gyfer elfennau gorfodol newydd Addysg Grefyddol (neu Grefyddau a Bydolygon fel rydym yn cynnig ailenwi'r pwnc) ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn gyson â'r hawliau a ddiogelir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

49. Caiff hawliau rhieni yn ail frawddeg Erthygl 2 Protocol 1 eu parchu'n briodol os nad yw'r Addysg Grefyddol a'r Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a ddarperir yn cynnwys gwthio syniadau ac os cânt eu darparu mewn modd gwrthrychol, beirniadol ac amlblwyfol. Caiff hawliau'r dysgwr yn Erthygl 9 eu parchu'n briodol drwy sicrhau bod dysgwyr yn dysgu am holl gynnwys hanfodol y cwricwlwm – cynnwys sy'n bwysig nid yn unig o ran gwneud cynnydd mewn perthynas â'r pedwar diben ond hefyd o ran eu diogelu nhw. Mae croeso i'w rhieni a'r gymuned ehangach ddarparu Addysg Grefyddol (neu Grefyddau a Bydolygon fel rydym yn cynnig ailenwi'r pwnc) ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel y gwelant orau y tu allan i'r ysgol.